

Rhif: WG32077



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Cod Trefniadaeth Ysgolion

Dyddiad cyhoeddi: 30 Mehefin 2017  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 30 Medi 2017

# Cod Trefniadaeth Ysgolion

**Trosolwg** Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae'r Cod yn gosod gofynion y mae'n rhaid i gyrff perthnasol (Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a hyrwyddwyr eraill) weithredu yn unol â nhw. Mae'n cynnwys hefyd ganllawiau ymarferol y mae'n rhaid i gyrff perthnasol roi sylw priodol iddynt, ac mae'n amlinellu'r cyd-destun polisi, yr egwyddorion cyffredinol a'r ffactorau y dylai'r rhai sy'n cyflwyno cynigion i ad-drefnu darpariaeth ysgolion a'r rhai sy'n gyfrifol am bennu cynigion eu hystyried.

Daeth y Cod Trefniadaeth Ysgolion presennol i rym ar 1 Hydref 2013. Ar ôl tair blynedd o weithredu, mae'r Cod wedi'i adolygu, gan fyfyrion ar adborth a dysgu yn ystod y cyfnod hwnnw. Y cynnig mwyaf arwyddocaol yw i gryfhau'r Cod mewn perthynas â rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig. Rydym yn awyddus i glywed eich barn am hyn ac am y newidiadau eraill.

**Sut i ymateb** Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn 30 Medi 2017 fan hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a** Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

**dogfennau cysylltiedig** *Cod Trefniadaeth Ysgolion*  
<http://llyw.cymru/topics/educationandskills/publications/guidance/school-organisation-code/?lang=cy>

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013  
<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/1/enacted>

Dosbarthiad Trefol-Gwledig (link)  
<https://www.ons.gov.uk/methodology/geography/geographicalproducts/ruralurbanclassifications/2011ruralurbanclassification>

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn

**Manylion cysylltu** I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Y Gangen Trefniadaeth Ysgolion a Derbyniadau  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg  
Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost:

[SchoolsManagementDivision3@cymru.gsi.gov.uk](mailto:SchoolsManagementDivision3@cymru.gsi.gov.uk)

Ffôn: 03000251356/03000251017

## Diogelu data

### **Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.**

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys

<b>Rhagair y Gweinidog</b>	<b>2</b>
<b>Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?</b>	<b>3</b>
<b>Pam rydym yn ystyried newid?</b>	<b>4</b>
<b>Pa newidiadau rydym yn eu hystyried?</b>	<b>6</b>
Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig	6
Cynnig i gau ysgol fach sydd hefyd wedi'i dynodi fel ysgol wledig	7
Dynodi rhai ysgolion fel ysgolion cynradd gwledig at ddibenion y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig	7
<b>Diwygiadau angenrheidiol a nodwyd ar ôl tair blynedd o weithredu'r Cod Trefniadaeth Ysgolion</b>	<b>10</b>

## Rhagair y Gweinidog

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn sail i'r darpariaethau a gyflwynwyd gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae wedi bod yn berthnasol i'r holl gynigion trefniadaeth ysgolion statudol a gyhoeddwyd trwy hysbysiad statudol ers iddo ddod i rym ar 1 Hydref 2013. Gyda'i gilydd, mae'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf a'r Cod wedi cyflymu'r broses trefniadaeth ysgolion trwy sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar lefel leol lle bo hynny'n bosibl. Mae'r system bresennol wedi galluogi penderfyniadau i gael eu gwneud yn gyflymach sydd, yn ei dro, yn helpu i gynyddu'r cyfleoedd addysgol i blant a phobl ifanc, gan helpu i godi lefelau cyrhaeddiad addysgol.

Rydym wedi adolygu'r Cod, ar ôl tair blynedd o weithredu, gan fyfyrion ar adborth a dderbyniwyd ac ar ddysgu dros y cyfnod hwnnw. Cynigir amryw o newidiadau i ddarparu eglurder lle bo angen. Y newid mwyaf arwyddocaol a gynigir yw i gryfhau'r Cod mewn perthynas â rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu ei hymrwymiad i gymunedau gwledig cynaliadwy llwyddiannus yn *Symud Cymru Ymlaen*. Mae'n glir bod darparu addysg o safon uchel mewn ysgolion bach a gwledig yn gallu bod o fudd mawr i ddisgyblion a chymunedau – yn academaidd, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol. Rwy'n gwybod, ac mae rhieni ar draws cymunedau gwledig yn gwybod, bod ysgolion bach a gwledig yn gwneud cyfraniad pwysig at godi safonau ac ymestyn cyfleoedd i bawb. Yn wir, maent yn hollbwysig o ran ymgysylltu â disgyblion a theuluoedd o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig mewn ardaloedd gwledig a chodi dyheadau disgyblion. Rwy'n gwybod hefyd y gall cynnal darpariaeth ysgol hygyrch mewn rhai cymunedau gwledig, bach wneud cyfraniad sylweddol at gynaliadwyedd tymor hir y gymuned leol.

Rwyf eisiau sicrhau bod cynigwyr yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gadw ysgol wledig ar agor cyn penderfynu ymgynghori ar y bwriad i gau'r ysgol. Y nod yw sicrhau bod y penderfyniad i gynnig cau'r ysgol ac ymgynghori ar y bwriad hwnnw ond yn cael ei wneud ar ôl i bob opsiwn arall gael eu hystyried, gan gynnwys ffedereiddio. Rwy'n credu y dylai'r broses o ystyried pob opsiwn fod yn broses dau gam, gyda'r cynigiwr yn gwneud hyn cyn penderfynu ymgynghori ar gynnig i gau ysgol. Yna, dylai ystyried unrhyw opsiynau neu awgrymiadau eraill sy'n codi yn ystod y broses ymgynghori. Gall hyn gynnwys ffedereiddio gydag ysgolion eraill neu gynyddu'r defnydd cymunedol o adeiladau'r ysgol i wneud yr ysgol yn fwy hyfyw.

Nid yw rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig yn golygu na fydd ysgolion gwledig byth yn cau. Fodd bynnag, mae'n golygu bod rhaid i'r achos dros gau'r ysgol fod yn un cryf ac na ddylai'r penderfyniad gael ei wneud hyd nes y bydd pob opsiwn arall wedi'u hystyried, gan gynnwys ffedereiddio.

Rwy'n croesawu'ch barn am hyn ac am welliannau arfaethedig eraill i'r Cod.

## **Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn am amryw o newidiadau arfaethedig i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ar ôl tair blynedd o weithredu yn seiliedig ar adborth a dysgu dros y cyfnod hwnnw. Y newid mwyaf arwyddocaol yw i gryfhau'r Cod mewn perthynas â rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig.

## Pam rydym yn ystyried newid?

Rhaid i awdurdodau lleol a chynigwyr eraill gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, a rhaid iddynt ystyried amrywiaeth o ffactorau wrth gynnig gwneud newidiadau mawr i ysgolion, gan roi'r sylw pennaf i fuddiannau dysgwyr.

Ar hyn o bryd, nid oes yna ragdybiaeth o blaid nac yn erbyn cau unrhyw fath o ysgol. Mae'r Cod presennol yn cydnabod mai prif ddiben ysgolion yw darparu addysg ac y dylai unrhyw achos dros gau ysgol fod yn gadarn ac er budd pennaf darpariaeth addysg yn yr ardal. Fodd bynnag, mae'r Cod yn cydnabod hefyd efallai mai ysgol yw prif ganolbwynt gweithgarwch cymunedol ac y gallai cau'r ysgol gael goblygiadau y tu hwnt i ddarpariaeth addysg, yn enwedig os yw adeiladau'r ysgol yn cael eu defnyddio fel lle i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned leol.

Yn aml, mae cau ysgol wledig yn golygu y bydd rhaid i blant deithio y tu allan i'w cymuned leol i'r ysgol nesaf, a gall y gymuned golli'r defnydd o adeiladau a chyfleusterau'r ysgol. Mewn rhai ardaloedd gwledig, efallai mai ysgol yw un o'r ychydig wasanaethau sydd ar ôl yn y gymuned, gan weithredu fel canolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymunedol. Felly, gallai cau ysgol gael goblygiadau i gynaliadwyedd y gymuned gyfan i'r dyfodol, y tu hwnt i ddarpariaeth addysg.

Mae'r Cod yn cydnabod mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod digon o ysgolion yn darparu addysg gynradd ac uwchradd ar gyfer eu hardal. Ystyrir bod ysgolion yn ddigonol os ydynt yn ddigonol o ran nifer, cymeriad a chyfarpar i roi cyfle i bob disgybl gael addysg briodol. Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau hyn, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cynllunio'n drylwyr ar gyfer ysgolion sy'n gwasanaethu eu hardaloedd. Mae'r Cod yn cydnabod hefyd mai addysg yw'r ystyriaeth bennaf. Mae hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â dyletswydd awdurdod lleol i geisio codi safonau addysg.

Yr ystyriaethau hyn sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried ffactorau ehangach megis yr angen i reoli ystâd yr ysgol mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Mae hyn yn cynnwys rheoli'r niferoedd gormodol o leoedd gwag sy'n cyfyngu adnoddau mewn ffordd anghynhyrchiol – adnoddau nad ydynt ar gael i'w defnyddio i godi safonau ac ansawdd addysg i bob disgybl o ganlyniad i hynny. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddynt geisio lleihau'r niferoedd gormodol o leoedd gwag mewn ysgolion. Er bod y Cod yn annog awdurdodau lleol i reoli lleoedd gwag – nid yw hyn o reidrydd yn golygu cau ysgolion. Mae'r Cod yn eu hannog i archwilio opsiynau eraill, gan gynnwys cydweithredu neu ffedereiddio, cynyddu'r defnydd cymunedol o adeiladau ysgol neu gydleoli gwasanaethau lleol yn yr ysgol i wrthbwysu costau.

Mae'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori hon yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng dymuniadau a phryderon dilys cymunedau gwledig a rhieni a chyfrifoldebau awdurdodau lleol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Wrth ystyried a yw'n briodol cau ysgol, mae'r Cod yn nodi y *dylid rhoi sylw arbennig i... bosibiliadau amgen heblaw cau'r ysgol* ac, wrth ymgynghori ar gynigion, rhaid i'r ddogfen ymgynghori *gynnwys disgrifiad o unrhyw ddewisiadau amgen a ystyriwyd a'r rhesymau dros eu gwrthod*.

Credwn y dylai'r broses o ystyried pob opsiwn fod yn broses dau gam. Dylai'r cynigiwr wneud hyn cyn penderfynu ymgynghori ar gynnig i gau ysgol, a dylai hefyd ystyried unrhyw opsiynau neu awgrymiadau eraill sy'n codi yn ystod y broses ymgynghori.

Y nod yw sicrhau bod y penderfyniad i gynnig cau'r ysgol ac ymgynghori ar y bwriad hwnnw ond yn cael ei wneud ar ôl i bob opsiwn arall gael eu hystyried, gan gynnwys ffedereiddio.

Bydd system fwy agored a thryloyw yn un lle mae'r ymgynghoriad yn cael ei lywio gan esboniad clir o pam mae'r cynigiwr wedi penderfynu cynnig cau'r ysgol a lle mae'r wybodaeth gefndir sy'n sail i'r penderfyniad hwnnw wedi'i hamlinellu'n glir. Bydd cynigwyr wedi bod yn ystyried ers amser maith a ddylid symud ymlaen i ymgynghori ar y cynnig i gau ysgol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y cynigiwr yn dangos ei fod yn agored i syniadau, awgrymiadau a chynigion newydd sy'n codi o'r ymgynghoriadau ac nad yw'r penderfyniad terfynol y bydd y cynigiwr yn ei wneud wedi'i wneud yn barod.



## Pa newidiadau rydym yn eu hystyried?

### Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig

Rydym eisiau cryfhau ail fersiwn y Cod Trefniadaeth Ysgolion i gyflwyno rhagdybiaeth benodol yn erbyn cau ysgolion gwledig. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynigwyr ddilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig ac wrth ymgynghori ar y cynnig a dod i benderfyniad ynghylch a ddylid rhoi'r cynnig i gau ysgol wledig ar waith.

Yn gryno, bydd y newidiadau i'r Cod yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r cynigiwr:

#### Cyn penderfynu ymgynghori ar gynnig i gau ysgol

1. Ystyried a fydd ysgol wledig yn cael ei chau fel rhan o gynnig trwy gyfeirio at ddynodiad ysgolion gwledig a 'rhestr o ysgolion gwledig'. Os yw'r ysgol yn ysgol wledig, mae'r darpariaethau arbennig yn berthnasol.
2. Nodi rhesymau clir a phenodol dros lunio'r cynnig ac ystyried y rhesymau hyn fel rhan o'r broses o benderfynu a ddylid ymgynghori ar y cynnigion i gau ysgol.
3. Nodi unrhyw opsiynau rhesymol eraill heblaw cau'r ysgol a allai fynd i'r afael â'r rhesymau dros y cynnig a darparu tystiolaeth i ddangos ei fod wedi ystyried yn ofalus bob opsiwn hyfyr arall (gan gynnwys ffedereiddio), gydag asesiad clir o deilyngdod a hyfywedd yr opsiynau hynny cyn i'r cynigiwr fynd ymlaen i ymgynghori ar y cynnig i gau'r ysgol; mae hyn yn cynnwys:
  - ✓ Y manteision tebygol i addysg
  - ✓ Yr effaith debygol ar y gymuned
  - ✓ Yr effaith debygol ar drefniadau teithio
4. Amlinellu ym mhapur y cynnig (h.y. papur i'w gyflwyno i'r penderfynwr yn nodi a ddylid ymgynghori ar gynnig ai peidio) yr opsiynau eraill sydd wedi'u nodi, asesu'r opsiynau hyn ac esbonio pam mae'r cynigiwr o'r farn, yng ngoleuni'r asesiad, mai mynd ati i gau'r ysgol fyddai'r ymateb mwyaf priodol i'r rhesymau dros y cynnig.

Ni ddylai'r cynigiwr wneud penderfyniad ynghylch a ddylid mynd ati i ymgynghori ar y cynnig hyd nes i'r gofynion rhagarweiniol hyn gael eu bodloni. Mae'r Cod yn nodi y disgwylir i'r math hwn o ymgysylltu arwain at bapurau o safon uwch a gwell ymgynghoriadau.

#### Yn ystod ac ar ôl ymgynghoriad

5. Rhoi cyfle i ymgynghoreion wneud sylwadau ar yr opsiynau eraill a nodwyd, ynghyd â'r prif gynnig, ac awgrymu opsiynau eraill yn ystod yr ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig.
6. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, wrth adolygu ei gynnig, cynnal asesiad pellach o'r cynnig a phob un o'r opsiynau eraill a amlinellwyd ym mhapur y cynnig yn erbyn yr un materion ac unrhyw opsiynau rhesymol newydd a awgrymwyd trwy ymatebion i'r ymgynghoriad.

## **Cynnig i gau ysgol fach sydd hefyd wedi'i dynodi fel ysgol wledig**

O dan Ddeddf 2013, nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn berthnasol i gynigion i gau ysgolion bach (h.y. y rhai â llai na 10 disgybl). Fodd bynnag, mae'r Cod yn nodi'n glir y dylai cynigwyr barhau i ystyried yr un ffactorau ag y dylid eu hystyried ar gyfer ysgolion o faint "safonol". Mae hyn yn golygu bod rhaid iddynt ystyried yr holl ffactorau perthnasol yn adran 1 o'r Cod, opsiynau eraill heblaw cau'r ysgol a goblygiadau i drefniadau cludiant a chynnal asesiad o'r effaith ar y gymuned wrth gynnig cau ysgol fach.

Rydym yn cynnig y dylid diwygio'r Cod i nodi lle mae awdurdod lleol neu gorff llywodraethu yn cynnig cau ysgol fach sydd hefyd wedi'i dynodi fel ysgol wledig, y bydd angen iddo hefyd:

- nodi rhesymau clir a phenodol dros lunio'r cynnig.
- nodi unrhyw opsiynau rhesymol eraill heblaw cau'r ysgol a allai fynd i'r afael â'r rhesymau dros y cynnig a darparu tystiolaeth i ddangos ei fod wedi ystyried yn ofalus bob opsiwn hyfyw arall (gan gynnwys ffedereiddio), gydag asesiad clir o deilyngdod a hyfywedd yr opsiynau hynny, gan gynnwys:
  - ✓ Y manteision tebygol i addysg
  - ✓ Yr effaith debygol ar y gymuned
  - ✓ Yr effaith debygol ar drefniadau teithio.
- amlinellu ym mhapur y cynnig (sef papur i'w gyflwyno i'r penderfynwr) yr opsiynau eraill sydd wedi'u nodi, asesu'r opsiynau hyn ac esbonio pam mae'r cynigiwr o'r farn, yng ngoleuni'r asesiad, mai mynd ati i gau'r ysgol fyddai'r ymateb mwyaf priodol i'r rhesymau dros y cynnig.

Cwestiwn ymgynghori: Ydych chi'n cytuno y dylid ei gwneud hi'n ofynnol i'r rhai sy'n cynnig cau ysgol fach sydd hefyd wedi'i dynodi'n ysgol wledig ddilyn cyfres fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig?

## **Dynodi rhai ysgolion fel ysgolion cynradd gwledig at ddibenion y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig**

Byddai'r cynigion uchod ond yn berthnasol mewn achosion o gau ysgolion gwledig. Felly, mae angen diffinio "ysgolion gwledig". Rydym wedi ystyried dau opsiwn. Yr opsiwn cyntaf yw dynodi ysgolion gwledig yn seiliedig ar nodweddion neu feini prawf penodol i ysgol. Fodd bynnag, gallai hyn arwain at dipyn o ddadlau mewn perthynas â'r meini prawf a'u dehongliad ym mhob achos lleol; mewn geiriau eraill, a ddylai ysgol benodol ymddangos ar y rhestr ai peidio.

Yr ail opsiwn fyddai defnyddio diffiniad mwy cyffredinol o ardaloedd gwledig fel bod unrhyw ysgolion yn yr ardaloedd hynny yn cael eu dynodi fel ysgolion gwledig yn awtomatig at ddiben y cynigion. Yn ein barn ni, pe gellid dyfeisio neu ddefnyddio diffiniad mwy clir a thryloyw o ardaloedd gwledig, byddai'r canlyniadau'n fwy tebygol o ennyn parch ac yn llai tebygol o arwain at ddadlau ynghylch y manylion.

Mae Dosbarthiad Trefol-Gwledig Ystadegau Gwladol yn cwmpasu Cymru a Lloegr ac yn deillio o brosiect ar y cyd a sefydlwyd gan amryw o adrannau llywodraeth a Llywodraeth Cymru. Mae'r dosbarthiad yn rhannu ysgolion yn wyth categori yn ôl natur eu lleoliad.

Yn hytrach na chael rhaniad syml rhwng trefol a gwledig, mae'r dosbarthiad yn ceisio dangos cyfoeth patrwm yr anheddiad. I wneud hyn, mae'n rhannu Cymru a Lloegr yn ôl y math o anheddiad a'r cyd-destun. Mae hyn yn seiliedig ar ble mae pobl yn byw ac nid yw'n edrych ar nodweddion economaidd-gymdeithasol y bobl na'r defnydd tir. I greu'r dosbarthiad, mae Cymru a Lloegr wedi'u rhannu'n grid gyda chelloedd ag ardal o 1 hectar. Mae gan Gymru ardal o tua 2 filiwn hectar. Mae pob cell wedi'i dosbarthu yn ôl y math o anheddiad a'r cyd-destun. Mae ardaloedd cynnyrch ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is wedi'u dosbarthu yn ôl mwyafrif y celloedd yn yr ardal. Mae map yn dangos sut mae Cymru wedi'i rhannu yn (dog 2). Dyma'r pedwar math o anheddiad:

- Trefi mawr – aneddiadau â mwy na 10,000 o bobl.
- Trefi bach – llai na 10,000 o bobl, yn cynnwys ymylon aneddiadau mawr.
- Pentrefi – aneddiadau llai o faint, gyda dwysedd tai is na threfi bach.
- Eraill – yr aneddiadau lleiaf ac anheddau ynysig.

Mae'r torbwynt o 10,000 o bobl ar gyfer trefi mawr yn fymrwyl. Fodd bynnag, mae'n drothwy a ddefnyddir yn eang ac mae wedi'i gynnal i fod yn gyson â dosbarthiadau blaenorol. Nid oes yna drothwy poblogaeth syml ar gyfer y categorïau eraill. Mae gan dref fach ddwysedd anheddu uwch dros ardal ehangach na phentref, ac mae gan bentref ddwysedd uwch a mwy estynedig nag ardal "arall".

Mae dau gyd-destun wedi'u diffinio: Y cyd-destun mwyaf prin – Mae gan yr ardaloedd hyn ddwysedd anheddu isel iawn o fewn radiws o 10 cilometr, 20 cilometr a 30 cilometr. Mae angen i ardal fod yn yr 20% mwyaf prin yng Nghymru a Lloegr ar y tair raddfa er mwyn cael ei dosbarthu yn y cyd-destun mwyaf prin. Ystyrir bod pob ardal arall yn y cyd-destun llai prin.

Mae 8 categori yn defnyddio'r ardaloedd cynnyrch:

1. Tref fawr yn y cyd-destun mwyaf prin.
2. Tref fach yn y cyd-destun mwyaf prin.
3. Pentref yn y cyd-destun mwyaf prin.
4. Arall (pentrefan neu anheddiad gwasgaredig) yn y cyd-destun mwyaf prin.
5. Tref fawr yn y cyd-destun llai prin.
6. Tref fach yn y cyd-destun llai prin.
7. Pentref yn y cyd-destun llai prin.
8. Arall (pentrefan neu anheddiad gwasgaredig) yn y cyd-destun llai prin.

Mae'r dosbarthiad wedi'i ddylunio fel adnodd ar gyfer crynodebau ystadegol. Felly, mae lefel o ansicrwydd yn y dyraniadau i'r categorïau yn cael ei derbyn fel rhan o'r fethodoleg. Nid datganiad pendant mohono.

Yn Lloegr, mae'r rhan fwyaf o ardaloedd yn aneddiadau â mwy na 10,000 o bobl, ac mae'r Adran Addysg wedi diffinio "Ysgolion Trefol" fel y rhai sy'n perthyn i'r categorïau "tref fawr yn y cyd-destun mwyaf prin" a "tref fawr yn y cyd-destun llai prin" (1 a 5); ac mae pob ysgol gynradd heblaw'r rhai yn yr aneddiadau hyn wedi'i chynnwys ar y rhestr o ysgolion

gwledig. Felly, mae cyfanswm o 4,151 o ysgolion cynradd wedi'u dynodi fel ysgolion gwledig yn Lloegr, sef 25% o'r holl ysgolion cynradd yn Lloegr.

Mae defnyddio'r dull hwn yng Nghymru yn cynhyrchu rhestr o 584 o ysgolion cynradd, sef 42% o'r holl ysgolion cynradd yng Nghymru.

Gan fod Cymru'n wlad fwy gwledig, mae yna wahanol gysyniad o beth mae trefol a gwledig yn ei olygu, felly ystyrir y byddai ailadrodd hyn ar gyfer Cymru yn rhy eang. Felly, cynigir y dylid llunio rhestr ar gyfer Cymru sy'n cynnwys ysgolion yn y dosbarthiadau "pentref yn y cyd-destun mwyaf prin" ac "arall yn y cyd-destun mwyaf prin" (3 a 4). Bydd y rhain yn ysgolion mewn ardaloedd â dwysedd anheddu isel iawn o fewn radiws o 10 cilometr, 20 cilometr a 30 cilometr mewn ardaloedd yn yr 20% mwyaf prin yng Nghymru ar y tair raddfa.

Mae rhestr sy'n cynnwys y dosbarthiadau "pentref yn y cyd-destun mwyaf prin" ac "arall yn y cyd-destun mwyaf prin" yn cynnwys 207 o ysgolion cynradd (tua 16% o'r 1,291 o ysgolion cynradd yng Nghymru). Mae'r 16 o'r ysgolion hyn a fydd yn cau yn ddiweddarach eleni oherwydd cynigion trefniadaeth ysgolion cymeradwy wedi'u tynnu oddi ar y rhestr, ac mae'r rhestr derfynol o ysgolion yn atodiad 1.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn awgrymu mai dyma'r **nifer leiaf** o ysgolion y dylid eu dynodi fel ysgolion gwledig at ddiben y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig.

Gwahoddir ymgynghoreion i fynegi eu barn ar a ddylai'r ysgolion hyn neu unrhyw ysgolion eraill gael eu dynodi fel ysgolion gwledig at ddibenion y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig. Bydd penderfyniad terfynol ar gategoriâu'r dosbarthiad Trefol-Gwledig a fydd yn llywio'r dynodiad yn cael ei wneud ar ôl dadansoddi'r ymatebion.

**Ydych chi'n cytuno â chynigion ar gyfer dynodi rhai ysgolion yn ysgolion gwledig at ddibenion y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig?**

## **Diwygiadau angenrheidiol a nodwyd ar ôl tair blynedd o weithredu'r Cod Trefniadaeth Ysgolion**

Cynigir amryw o newidiadau i'r cod trefniadaeth ysgolion yn seiliedig ar adborth a dysgu yn ystod ei dair blynedd o weithredu. Rydym yn awyddus i glywed eich barn am y newidiadau hyn.

Yn ogystal, rydym wedi:

- diwygio'r gofyniad bod rhaid i'r ddogfen ymgynghori gael ei chyhoeddi yn ystod y tymor i'w gwneud hi'n ofynnol iddi gael ei chyhoeddi ar ddiwrnod ysgol.
- newid y gofyniad bod rhaid i ymgynghoreion dderbyn copi caled o'r ddogfen ymgynghori neu e-bost gyda dolen i'r wefan berthnasol i'w gwneud hi'n ofynnol i ymgynghoreion dderbyn llythyr neu e-bost yn dweud bod y ddogfen ymgynghori ar gael ac y gallant gael copi caled ar gais.
- diwygio'r adran ar gymeradwyo neu bennu cynigion fel bod rhaid i'r rhai nad ydynt yn cynnal yr ymgynghoriadau eu hunain ystyried i ba raddau mae'r cynnig a'r ymgynghoriad statudol wedi'u cynnal yn unol â'r Cod.
- diwygio'r canllawiau ar leoedd gwag mewn ysgolion i adlewyrchu'r ffaith er y gofynnir i gynigwyr reoli lleoedd gwag gormodol, nad yw hyn o reidrwydd yn golygu cau ysgolion. Mae'r Cod yn annog cynigwyr i edrych ar opsiynau eraill sydd ar gael iddyn nhw a'u hysgolion, er enghraifft, clystyru, cydweithredu neu ffedereiddio gydag ysgolion eraill a defnyddio'r adeilad presennol fel adnodd cymunedol. Fe'u hanogir hefyd i resymoli gofod ysgol trwy gydleoli gwasanaethau yn yr ysgol i wrthbwysu costau.